



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	13 Gorffennaf 2022
TEITL	Cyfrifon Terfynol GwE 2021/22 – Alldro Refeniw
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
AWDUR	Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. PENDERFYNIAD

- 1.1 **Nodi a derbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2021/22 yma fel Atodiad 1**, ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant a gyflwynir er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro".
- 1.2 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2021/22 sydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol GwE am y flwyddyn sydd eisoes wedi eu cynhyrchu, ardystio a chyhoeddi gan Adran Gyllid yr awdurdod lletya cyn y dyddiad statudol o 31 Mai.
- 1.3 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo trosglwyddiad ariannol o gronfa wrth gefn GwE i ariannu gorwariant 2021/22 o £230,128.

2. CEFNDIR

- 2.1 Adroddir ar sefyllfa terfynol o orwariant net o £230,128 yn erbyn y gyllideb, sydd bennaf yn sgil blaenoriaethu cynlluniau angenrheidiol penodol.
- 2.2 Bu symudiad o £246,417 i'r hyn adroddwyd yn chwarter 3, sef amcangyfrif tanwariant o (£16,289), gyda'r rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

3. AMRYWIADAU ARIANNOL

3.1 Gweithwyr:

Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£154,111) Chwarter 3: Tanwariant (£70,371)

Tanwariant yn bennaf oherwydd trosiant staff gan gynnwys staff ar secondiad gyda'r cynlluniau yn cael eu hariannu drwy grantiau. Gwariant ar brosiectau wedi ei flaenoriaethu eleni, gyda'r tanwariant o dan y pennawd hwn yn cael ei glustnodi i'r pwrpas hwnnw.

3.2 Adeilad:

Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £50,388 Chwarter 3: Gorwariant £56,833

Y sefyllfa terfynol yw gorwariant oherwydd diffyg incwm rhent am ddefnydd adeiladau GwE yn sgil yr argyfwng Covid. Mae GwE yn ddibynnol ar incwm gan ysgolion, awdurdodau a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael ei ariannu drwy grantiau. Gyda staff bellach yn dychwelyd i'r swyddfa bydd disgwyl i'r ffrwd incwm yma wella yn ystod 22/23.

3.3 Cludiant:

Sefyllfa Terfynol: Tanwariant (£102,734) Chwarter 3: Tanwariant (£102,751)

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 3, sef tanwariant oherwydd diffyg teithio yn ystod y cyfnod clo. Mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn, ond ddim i'r un raddfa a chyn yr argyfwng Covid. Bydd y pennawd yn destun adolygiad ar ffyrdd newydd o weithio i'r dyfodol.

3.4 Prosiectau Penodol:

Sefyllfa Terfynol: Gorwariant £433,369 Chwarter 3: Gorwariant £100,000

Mae'r gwasanaeth yn fwriadol wedi blaenoriaethu cynlluniau angenrheidiol yn y flwyddyn ariannol hon er mwyn rhoi cefnogaeth i ysgolion. Mae'r gorwariant yn y pennawd yma yn cael ei ariannu drwy dan wariannau ar benawdau eraill a nodir uchod yn ogystal â defnydd o'r gronfa wrth gefn.

4. CRONFA TANWARIANT

- 4.1 Cyfanswm y gronfa ('balansau cyffredinol' GwE) ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2021/22 oedd (£563,530).
- 4.2 Mae'r gorwariant net o £230,128 i'w ariannu o gronfa wrth gefn, ac yn dilyn trosglwyddiadau eraill i'r gronfa yn ystod y flwyddyn, y balans terfynol ariannol 2021/22 yw (£437,503).

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2021/22.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad